| | |
|---|---|
| **Adroddiad ar gyfer:** | **Y Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **Ebrill 16eg 2013** |
| **Aelodau Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Hugh Evans, Aelod Arweiniol y Cabinet dros Ddatblygu Economaidd, y Cynghorydd Huw Jones, Aelod Arweiniol y Cabinet dros Dwristiaeth, Hamdden ac Ieuenctid (yn cynnwys Datblygu Gwledig)** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rebecca Maxwell, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol** |
| **Teitl:** | **Symud o Gynlluniau Trefol i Gynlluniau Ardal** |

---

## 1. Beth mae'r adroddiad yn ymwneud ag o?

Yn ystod 2011/12, fe ddatblygodd ac fe gadarnhaodd Cyngor Sir Ddinbych Gynlluniau Trefol ar gyfer saith o brif drefi'r sir, heb gynnwys y Rhyl. Fe gynhaliwyd ymarferiad tebyg yn y Rhyl i ddatblygu Cynllun Cyflenwi'r Rhyl yn Symud Ymlaen. Mae'r Cynlluniau Trefol wedi caniatáu i anghenion a blaenoriaethau cymunedol gael eu nodi ar gyfer pob prif anheddiad. Nid ydyn nhw hyd yma, fodd bynnag, wedi delio ag anghenion a blaenoriaethau cymunedau llai a mwy gwledig. Yn Ionawr 2013, fe gytunodd y Cabinet i ehangu'r Cynlluniau Trefol yn Gynlluniau Ardal ehangach. Mae'r adroddiad yma'n disgrifio sut y bydd hynny'n digwydd.

## 2. Beth yw'r rheswm am wneud yr adroddiad yma?

I geisio cymeradwyaeth i'r broses o ehangu'r Cynlluniau Trefol yn Gynlluniau Ardal ehangach gan ymgorffori cymunedau llai a mwy gwledig ar draws Sir Ddinbych.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r broses o ehangu'r Cynlluniau Trefol yn Gynlluniau Ardal ehangach yn seiliedig ar y Cynllun Trefol fel y'i mynegir yn yr adroddiad hwn, yn cynnwys yn benodol:

- Y cymunedau sy'n cael eu cwmpasu ym mhob Cynllun, a fynegir yn Atodiad 1
- Y trefniadau ymgynghori, a fynegir yn Atodiad 2
- Y disgwyliad y bydd y Cynlluniau Ardal wedi eu cwblhau erbyn Medi 2013

## 4. Manylion yr Adroddiad

Cefndir

4.1 Yn ystod 2011/12, fe gynhaliodd y Cyngor ymarferiad mawr i grynhoi Cynlluniau Trefol ar gyfer saith o brif drefi'r Sir, heb gynnwys y Rhyl, er mwyn nodi anghenion a blaenoriaethau cymunedol. Fe gynhaliwyd ymarferiad tebyg yn y Rhyl i ddatblygu Cynllun Cyflenwi'r Rhyl yn Symud Ymlaen. Fe gymeradwywyd y Cynlluniau Trefol ar gyfer Corwen, Dinbych, Llangollen, Prestatyn, Rhuddlan, Rhuthun a Llanelwy gan y Cabinet rhwng Rhagfyr 2011 a Mawrth 2012.

4.2 Yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2013, fe gymeradwyodd y Cabinet ddyraniad cyllid cychwynnol ar gyfer prosiectau a nodwyd yn flaenoriaethau Blwyddyn 1 yn y Cynlluniau Trefol. Fe gytunodd y Cabinet ar yr un pryd i ehangu'r Cynlluniau Trefol yn Gynlluniau Ardal ehangach.

4.3 Ers Ionawr 15$^{fed}$ 2013, mae Grŵp Cydlynu'r Cynlluniau Trefol wedi ystyried y broses briodol i ymestyn y Cynlluniau Trefol presennol yn Gynlluniau Ardal ehangach. Wrth wneud hynny mae wedi delio â 3 phrif gwestiwn:

a) Beth yw'r 'ardal' briodol ar gyfer Cynllun Ardal?

b) Sut y dylid datblygu'r Cynlluniau Ardal?

c) Sut olwg fydd ar y Cynlluniau Ardal?

Yr ardaloedd i'w cwmpasu

4.4 Wrth ystyried pa ardal ddylai'r Cynllun ei chwmpasu, fe ystyriodd y Grŵp ddau opsiwn – Cynlluniau'n cwmpasu ardaloedd y Grŵp Aelodau Ardal, neu ardaloedd sy'n cynnwys y Trefi a'r cymunedau sydd â pherthynas draddodiadol neu naturiol â nhw. Oherwydd mai bwriad y Cynlluniau Ardal ydi cyflawni ymrwymiad y Cyngor i gynllunio'n seiliedig ar y gymuned a'i uchelgais i fod yn Nes at y Gymuned, daeth aelodau'r Grŵp i'r casgliad mai'r ail opsiwn – Trefi a'u Cymunedau Cysylltiedig – oedd yr opsiwn dewisol. Er eu bod fymryn yn fwy cymhleth i'w rheoli o bersbectif y Cyngor, teimlai'r Grŵp fod Cynlluniau felly'n haws i breswylwyr eu deall. Mae'r dull gweithredu yma hefyd yn unol ag arferion gorau mewn cynllunio a arweinir gan y gymuned a datblygiad economaidd trefi marchnad.

4.5 Mae Atodiad 1 yn nodi'r cymunedau y bydd pob Cynllun yn eu cwmpasu. Mae'r rhain wedi eu trafod a'u cadarnhau gan y Grwpiau Aelodau Ardal a chredir eu bod yn cynrychioli'r cysylltiadau naturiol sy'n 'ffitio orau' rhwng cymunedau a threfi.

4.6 Fe ystyriodd Grŵp Cydlynu'r Cynlluniau Trefol hefyd faint o Gynlluniau fyddai'n addas. Daeth y Grŵp i'r casgliad y dylid cael cyfanswm o 9 o Gynlluniau - y 7 Cynllun Trefol presennol, Rhaglen y Rhyl yn Symud Ymlaen a Chynllun newydd ar gyfer Bodelwyddan, i'w ddatblygu os caiff y Cynllun Datblygu Lleol arfaethedig ei gymeradwyo.

Datblygu'r Cynlluniau

4.7 Mae Grŵp Cydlynu'r Cynlluniau Trefol yn cydnabod fod yn rhaid i ymgynghori lleol da fod yn sail i'r Cynlluniau Ardal newydd os ydyn nhw i fod yn wirioneddol seiliedig ar gymunedau ac yn adlewyrchol o anghenion a blaenoriaethau lleol. Er mwyn sicrhau cysondeb y dull gweithredu, mae'r

Grŵp Cydlynu wedi cadarnhau fframwaith eang ar gyfer ymgynghori. Mae hwn wedi ei fynegi yn Atodiad 2. Yn unol â'r Siarter Cynghorau Tref a Chymuned, mae cynigion wedi eu dylunio i sicrhau bod Cynghorau Cymuned yn arwain yr ymgynghori a'r ymgysylltu ar lefel leol.

4.8 Mae'r Grŵp yn cymeradwyo bod Pencampwyr Cynlluniau Trefol, gyda chefnogaeth eu Swyddogion Cymorth, yn llunio cynlluniau ymgynghori manwl ar gyfer cymunedau llai a mwy gwledig i'w hymgorffori yn eu Cynllun Ardal yn unol â'r fframwaith hwn. Y GAA fydd yn cadarnhau'r trefniadau ymgynghori lleol.

4.9 Bydd nifer fechan o Gynghorwyr â chymunedau o fewn eu wardiau wedi eu hymgorffori mewn Cynllun Ardal a fydd y tu allan i'w GAA. Gan y bydd GAA â rôl bwysig yn natblygiad y Cynlluniau Ardal newydd, mae Grŵp Cydlynu'r Cynlluniau Trefol wedi ystyried y ffordd orau o ddelio â hyn ac mae'n cymeradwyo'r canlynol:

- Pencampwr y Cynlluniau Trefol i ymgynghori ag Aelodau Lleol ar y ffordd orau o ymgynghori â'u cymunedau unigol
- Gwahodd Aelodau Lleol ar ddechrau'r broses i nodi unrhyw faterion allweddol neu flaenoriaethau y maen nhw'n ymwybodol ohonyn nhw o fewn eu cymunedau, i hysbysu'r ymgynghoriad lleol
- Gwahodd Aelodau Lleol i ddod i gyfarfodydd perthnasol y GAA pan fydd y Cynllun Ardal yn cael ei ystyried i'w gymeradwyo. Os na fyddan nhw'n gallu bod yn bresennol, bydd yr Aelod Arweiniol dros Dwristiaeth, Hamdden ac Ieuenctid, gan weithredu yn ei rôl fel Pencampwr Gwledig, yn gofalu bod buddiannau pob cymuned wledig, yn cynnwys y rheiny sy'n dod dan ardal GAA yn arferol, yn cael eu hymgorffori'n ddigonol yn y Cynlluniau Ardal sy'n ymddangos..

4.10 Fe ddatblygir y Cynlluniau Ardal gan y Pencampwyr Cynlluniau'n seiliedig ar ymgynghoriadau lleol ac fe'u hadolygir gan GAA. O'u cadarnhau gan y GAA, fe gyfeirir y Cynllun Ardal at y Cabinet i'w gymeradwyo. Gellir dyrannu cyllid ar gyfer blaenoriaethau cynnar yn y cam yma hefyd. Mae'n debygol y bydd rhai Cynlluniau Ardal yn dod yn eu blaen yn gynt na'i gilydd yn dibynnu ar gymhlethdod ymgynghori lleol. Fodd bynnag, cymeradwyir dyddiad targed o Fedi 2013 ar gyfer cytuno'r Cynlluniau Ardal i gyd.

<u>Strwythur Cynlluniau Ardal</u>

4.11 Bydd y Cynlluniau Ardal newydd â 3 adran eang - un yn nodi'r weledigaeth a'r blaenoriaethau ar gyfer pob tref, ail adran yn nodi sut y mae cymunedau llai a mwy gwledig yn cysylltu â'r Dref, a thrydydd yn mynegi unrhyw anghenion neu flaenoriaethau penodol ar gyfer y cymunedau llai a mwy gwledig. Bydd y cynigion ymgynghori a drafodir uchod ac a fynegir yn Atodiad 2 yn canolbwyntio ar ail a thrydedd adran y Cynlluniau.

4.12 Ni fwriedir ailymweld â'r adran Cynlluniau Trefol na'r blaenoriaethau yn y cam yma, er y bydd cyfnodau cyfnerthu a chryfhau'r Cynlluniau yn y dyfodol yn caniatáu adolygu problemau a blaenoriaethau wrth i amgylchiadau newid. Mae trywydd ar gyfer camau datblygu yn y dyfodol wedi ei awgrymu yn Atodiad 3.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu tuag at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi trefi a chymunedau sy'n fywiog ac yn economaidd egnïol fel elfennau hanfodol economi leol gadarn. Mae cyfuno ac ehangu Cynlluniau Trefol yn Gynlluniau Ardal ehangach yn ymestyn y gwaith yma i gymunedau llai a mwy gwledig.

## 6. Beth fydd hyn yn ei gostio a sut fydd o'n effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae cyllideb i ariannu blaenoriaethau sy'n codi o'r Cynlluniau Trefol/Ardal wedi ei chytuno. Gwnaethpwyd dyraniad cychwynnol o oddeutu £600k i flaenoriaethau Cynllun Trefol Blwyddyn 1 ym mis Ionawr. Fe gadwyd gweddill y gyllideb i'w ddyrannu i flaenoriaethau cynnar a fydd yn ymddangos o'r Cynlluniau Ardal ehangach ac unrhyw brosiectau a fydd yn ymddangos o'r adolygiad blaenoriaethau ar gyfer y Rhyl. Fe wneir argymhellion ar gyfer dyraniadau pellach i flaenoriaethau a fydd yn ymddangos wrth i Gynlluniau ddod ymlaen i'w cymeradwyo gan y Cabinet.

## 7. Pa ymgynghoriadau a gafwyd ac a fu yna Sgrinio Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb?

Mae'r Grŵp Cydlynu Cynlluniau Trefol wedi trafod y cynigion a amlinellir yn yr adroddiad yma. Fe ymgynghorwyd hefyd â Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych ar ymgysylltiad y Sector Wirfoddol/Trydydd Sector yn natblygiad y Cynlluniau Ardal.

Fe wnaiff y Pwyllgor Craffu Cymunedau adolygu'r cynigion mewn cyfarfod arbennig ar Ebrill 2013. Fe roddir sylwadau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar gael i'r Cabinet yn ei gyfarfod..

Mae'r trefniadau ymgynghori ar gyfer datblygu'r Cynlluniau Ardal fel y'u mynegir yn yr adroddiad.

## 8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae datblygiad y cynlluniau trefol yn bwysig i ddarparu proses i ganiatáu buddsoddi mewn prosiectau cymunedol a threfol allweddol.

## 9. Pa risgiau sydd yna ac a oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Y risgiau sy'n gysylltiedig â gweithrediad y Cynlluniau Ardal ehangach ydi:

- Methu â delio ag anghenion a blaenoriaethau cymunedau llai a mwy gwledig
- Gwariant anghydlynol ar brosiectau gydag ond ychydig o fantais leol neu fantais strategol aneglur
- Methu ag ariannu blaenoriaethau a nodwyd

Fe ddelir â'r risgiau hyn drwy'r broses a amlinellir yn yr adroddiad yma, ac yn arbennig y cynigion ymgynghori a fynegir yn Atodiad 2.

Mae'r risg o beidio â chyflenwi'r camau a nodwyd i'w cwblhau ym mlynyddoedd cynnar y Cynlluniau Trefol wedi eu lleihau drwy greu swyddogaethau'r Pencampwyr Cynlluniau Tref ac Ardal i yrru cyflenwad y blaenoriaethau a nodwyd o fewn y Cynlluniau Trefol ac Ardal perthnasol a thrwy ddyrannu cyllidebau i alluogi ariannu camau blaenoriaeth na ellir eu cyflenwi fel arall drwy gyllidebau gwasanaeth presennol.

## 10. Grym i wneud y Penderfyniad

Mae Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn rhoi'r grym i wneud unrhyw beth sy'n debygol o hyrwyddo neu wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yr ardal.